



Llywodraeth Cymru
Crynodeb o'r Ymatebion

Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf 2019

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2020

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Crynodeb

Amcan Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) oedd deall ble mae buddsoddiad y sector preifat yn rhwydweithiau Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA) - a ddiffinnir fel darparu band eang o 30Mb yr eiliad neu fwy - wedi digwydd eisoes yng Nghymru, ble mae'n digwydd ar hyn o bryd neu ble mae bwriad iddo ddigwydd yn y tair blynedd nesaf. Y prif reswm dros gynnal Adolygiad 2019 yw cael darlun llawn o gysylltedd yng Nghymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol allu cefnogi ymyriadau posib yn y dyfodol. Yn ogystal â cheisio gwybodaeth am NGA, gofynasom hefyd am fynediad at wasanaethau Gigabit.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gais am Wybodaeth (OMR 2019) a gynhaliwyd rhwng 19/07/19 a 20/08/19, a oedd yn galluogi cwmnïau telathrebu a darparwyr band eang i ymateb gyda gwybodaeth fanwl am eu technoleg rhwydwaith Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA), eu darpariaeth NGA ar y pryd (naill ar lefel safle (UPRN¹) neu god post) a'u cynlluniau i gyflwyno NGA ar hyd a lled Cymru yn y dyfodol. Cafodd y data a ddaeth i law ei ddadansoddi wedyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn dosbarthu safleoedd a chodau post yng Nghymru yn ôl eu statws darpariaeth cyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Yn dilyn y Cais am Wybodaeth OMR, cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus rhwng 12/11/19 a 12/12/19. Estynnwyd gwahoddiad i bob rhanddeiliad ymateb, gan gynnwys cwmnïau telathrebu a darparwyr band eang, sefydliadau'r diwydiant, Awdurdodau Lleol ac aelodau'r cyhoedd i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chysylltedd band eang yng Nghymru.

Cafodd yr holl wybodaeth a data a dderbyniwyd eu dadansoddi gan Lywodraeth Cymru er mwyn dosbarthu'r safleoedd a'r codau post yng Nghymru yn ôl eu statws darpariaeth a chynhyrchu map a set ddata terfynol sy'n nodi'r cwmpas presennol a chwmpas arfaethedig NGA ar draws Cymru.

Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen Crynodeb o Ymatebion hon yn amlinellu ar lefel uchel y deuddeg (12) o ymatebion Cais am Wybodaeth OMR a'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r camau nesaf dilynol yn y broses.

Dosbarthu Data

Wrth benderfynu ar statws gwasanaethau NGA, defnyddiodd Llywodraeth Cymru wybodaeth lefel UPRN –

¹ Mae Cod Eiddo Unigryw (UPRN) yn god adnabod alffaniwmerig unigryw ar gyfer pob cyfeiriad gofodol ym Mhrydain Fawr, sydd i'w canfod mewn cynnyrch Cyfeiriadau yr Arolwg Ordnans. Mae'r UPRN yn darparu dull adnabod cynhwysfawr a chyson drwy gydol oes eiddo o'r caniatâd cynllunio hyd at ei ddymchwil.

os derbyniwyd hyn. Fodd bynnag, os darparwyd gwybodaeth lefel cod post yn unig, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y byddai'r ardal cod post gyfan yn cael ei chwmpasu gan wasanaethau NGA os oedd cyflymderau a thystiolaeth brofedig ar gael.

O ran data lefel safleoedd:

- Bydd safle'n troi'n "Llwyd" os bydd dim ond un gweithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau NGA i'r safle hwnnw.
- Bydd safle'n troi'n "Ddu" os bydd o leiaf dau weithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau NGA i'r safle hwnnw.
- Bydd pob safle arall yn parhau'n "Wyn", h.y. nid oes unrhyw weithredwyr seilwaith band eang yn bresennol.

O ran data lefel cod post:

- Bydd cod post yn troi'n Llwyd os bydd dim ond un gweithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau NGA i'r cod post hwnnw.
- Bydd cod post yn troi'n Ddu os bydd o leiaf dau weithredwr seilwaith band eang sy'n darparu gwasanaethau NGA i'r cod post hwnnw.
- Bydd cod post hefyd yn troi'n Ddu os bydd un darparwr cod post ac un neu fwy o ddarparwyr safleoedd yn darparu gwasanaethau NGA.
- Bydd pob cod post arall yn parhau'n Wyn h.y. nid oes unrhyw weithredwyr seilwaith band eang NGA yn bresennol sy'n darparu gwasanaethau NGA.

Mae'r Ardal Ymyrryd bosib hefyd yn cynnwys ardaloedd Dan Adolygiad (safleoedd "Dan Adolygiad" a chodau post "Dan Adolygiad") a safleoedd wedi'u "Hidlo".

Mae ardaloedd Dan Adolygiad yn ardaloedd sydd wedi'u nodi gan ddarparwyr seilwaith band eang bod ganddynt gwmpas masnachol arfaethedig ar gyfer band eang NGA (o fewn y tair blynedd nesaf). Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r uwchraddio a/neu'r cyflwyniadau rhwydwaith wedi'u profi'n llawn a/neu wedi'u cwblhau, ac felly gallent fod 'mewn perygl' o gael eu cwblhau a gwasanaethau NGA yn cael eu darparu i'r safleoedd hyn.

Mewn achosion pan fydd codau post neu safleoedd wedi'u clustnodi fel hyn o Dan Adolygiad, bydd cynlluniau lleoli'r darparwr telathrebu yn ddarostyngedig i waith monitro a dilysu

parhaus gan Lywodraeth Cymru. Os na fydd y cynlluniau masnachol hyn yn cael eu gwireddu, byddai'r codau post a/neu'r safle yn cael eu nodi'n NGA Gwyn (a byddent o bosibl yn ffurfio rhan o unrhyw Ardal Ymyrryd yn y dyfodol).

Fodd bynnag, os bydd y data codau post yn dangos safle Dan Adolygiad, ond bod data lefel safle ar gyfer gwasanaethau NGA o fewn y codau post, bydd y statws Dan Adolygiad ar gyfer y safleoedd hynny yn cael eu diystyru i'w dosbarthu fel NGA Llwyd neu Ddu.

Safleoedd wedi'u hidlo yw'r rhai sy'n annhebygol o gynrychioli pwyntiau terfynol sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth NGA. Mae'r rhain wedi'u tynnu o'r Ardal Ymyrryd Bosib. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn, ond heb eu cyfyngu iddynt mae pyllau, cregyn eiddo a chaeau chwarae.

Data wedi'i Gynhyrchu o'r Ymatebion OMR

Un o allbynnau allweddol yr ymarfer OMR yw creu map rhyngweithiol NGA sy'n dangos y data safleoedd a chodau post a gynhyrchwyd gan ddefnyddio'r dosbarthiadau uchod. Mae map yr Ardal Ymyrryd gychwynnol a gynhyrchwyd o'r OMR hwn ar gael yn:

<http://lle.gov.wales/map/ngaomr2019?lang=cy>

Mae map yr Ardal Ymyrryd derfynol a gynhyrchwyd o'r OMR hwn, gan gynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd ar y camau Cais am Wybodaeth ac Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gael yn:

(Bydd dolen yn cael ei darparu mewn fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r ddogfen hon maes o law)

Mae data lefel cod post ac Awdurdod Lleol wedi'i gyhoeddi ar wefan ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, gyda'r adroddiad cryno hwn o'r canfyddiadau:

<https://llyw.cymru/mynediad-i-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-2019>

Hefyd, mae data lefel safle wedi'i lwytho i lwyfan a rennir Llywodraeth Cymru er mwyn i Awdurdodau Lleol, darparwyr telathrebu a sefydliadau eraill sydd â diddordeb ddadansoddi, mapio a defnyddio'r wybodaeth yn annibynnol i lywio eu gweithgareddau yng Nghymru yn y dyfodol.

Dylid anfon pob cais i'r llwyfan hwn i NextGenerationBroadB1@gov.wales. Y meysydd sydd ar gael i gael mynediad iddynt yw:

- 'Hwb Seilwaith Digidol' ar gyfer Awdurdodau Lleol;
- 'Rhannu Data Seilwaith Digidol' ar gyfer darparwyr telathrebu a sefydliadau eraill sydd â diddordeb.

Bydd aelodau Cytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus (PSMA) yn gallu cael mynediad hefyd at y data lledred a hydred er mwyn plotio'r data hwn ar fap. Mae manylion pellach ar gael yma <https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/partner-member/member>.

Cefndir

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei Hadolygiad Cyntaf o'r Farchnad Agored (OMR) ac Ymgynghoriad Cyhoeddus ym mis Mehefin 2011. Yn dilyn yr OMR hwn a'r broses gaffael a ddilynodd, dyfarnwyd cytundeb grant Cyflymu Cymru i BT yn 2012 i gyflenwi band eang cyflym iawn i ardal ymyrryd benodedig.

Cyflenwodd Cyflymu Cymru fynediad band eang cyflym iawn i oddeutu 733,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru (ar >24Mb yr eiliad), ac o'r rhain gall 717,000 gael cyflymder o 30Mb yr eiliad o leiaf. Cafodd y prosiect ei gyflawni gyda buddsoddiad sector cyhoeddus o fwy na £200 miliwn. Y dechnoleg a gyflwynwyd gan Openreach oedd Ffibr i'r Cabinet (FTTC) yn bennaf, gyda rhywfaint o dechnoleg Ffibr i'r Safle (FTTP) sy'n gallu darparu gwasanaeth gigabit. Daeth y rhaglen gyflwyno hon i ben yn 2018.

Yn ystod oes Cyflymu Cymru cafodd dau Adolygiad arall eu cynnal er mwyn cynnal darlun cyfredol o'r newidiadau o ran cysylltedd yng Nghymru ac o gynlluniau darparwyr telathrebu preifat. Yn sgil Adolygiad yn 2014 cafodd rhagor o safleoedd eu cynnwys yng nghytundeb grant Cyflymu Cymru.

Cynhaliwyd Adolygiad pellach yn 2017 i ailasesu nifer yr adeiladau Gwyn a oedd yn dal ar ôl yng Nghymru. Ar sail yr wybodaeth a gynhyrchwyd, mae prosiect pellach gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno ffibr wedi cael ei gaffael. Bydd yn talu am y gwaith o gysylltu 26,000 pellach o safleoedd ar draws Cymru. Y bwriad yw darparu technoleg FTTP i'r holl safleoedd hyn. Bydd hyn yn digwydd drwy £26 miliwn o gymhorthdal cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyllid gan yr UE. Mae posibilrwydd y bydd hyn yn cynyddu i 39,500 safle, fel rhan o estyniad o'r cam caffael presennol hwn.

Crynodeb o'r Adolygiad

Roedd yr Adolygiad o'r Farchnad Agored yn cynnwys dwy ran casglu data; roedd Cais am Wybodaeth OMR wedi'i anelu'n gyfan gwbl ar gyfer darparwyr telathrebu, ac roedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi'i anelu ar gyfer pob rhanddeiliad.

Cais am Wybodaeth OMR

Roedd cam cais am wybodaeth OMR ar agor rhwng 19/07/19 a 20/08/19. I sicrhau bod y farchnad yn cyfrannu mor eang â phosib, cafodd Cais am Wybodaeth OMR ei anfon at 358 o gyflenwyr, gan gynnwys y cyflenwyr hynny y gwyddom fod ganddynt seilwaith band eang ar draws Cymru ac eraill y gwyddom fod ganddynt (neu y tybir fod ganddynt efallai) gynlluniau i ddefnyddio rhwydweithiau ar draws Cymru.

Gofynnodd sawl cyflenwr telathrebu am estyniad i ddyddiad cau gwreiddiol OMR, sef 20/08/19. Cytunodd Llywodraeth Cymru i estyniad hyd at 30/08/19.

Ar ôl i'r cyflwyniadau i'r Adolygiad ddod i law, cafodd yr wybodaeth ei hadolygu i weld a oedd yn gyflawn ac i ganfod a oedd unrhyw anghysondebau neu gamgymeriadau yn y data a ddarparwyd. Dangosodd yr adolygiad cychwynnol hwn fod bylchau yn yr ymatebion a gyflwynwyd gan sawl cyflenwr, a oedd yn golygu na allai Llywodraeth Cymru asesu honiadau'r cyflenwr ynglŷn â'i ddarpariaeth band eang ar draws Cymru. Felly, anfonwyd negeseuon e-bost yn gofyn naill ai am eglurhad o'r wybodaeth a ddarparwyd, neu am wybodaeth ychwanegol a oedd yn ofynnol er mwyn sefydlu hyd a lled eu darpariaeth NGA, eu cynlluniau cyflwyno i'r dyfodol, dyluniad a dimensiynau eu rhwydweithiau, neu i gywiro camgymeriadau yn y data. Yna defnyddiwyd yr wybodaeth hon i fireinio'r Ardal Ymyrryd, a gyhoeddwyd gyda'r Ddogfen Crynodeb o'r Ymatebion a Dogfen yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Lleoliad y Wefan

<https://llyw.cymru/mynediad-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-adolygiad-or-farchnad-agored-2019>

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Lansiwyd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus drwy wefan Llywodraeth Cymru ar 12/11/19, gyda dyddiad cau ar gyfer dychwelyd ymatebion ar 12/12/19. Roedd dogfen yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn anelu at dair cynulleidfa, gyda chanllaw penodol yn cael ei roi i bob math ynglŷn â'r ymateb a geisiwyd i ganfyddiadau cychwynnol OMR. Y tri math o gynulleidfa oedd:

- Preswylwyr a busnesau yng Nghymru;
- Awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau diwydiant;

- Darparwyr telathrebu.

Prif ddiben yr Ymgynghoriad Cyhoeddus oedd caniatáu i bob math o randdeiliad adolygu a rhoi sylw ar y set ddata lefel safle NGA a grëwyd gan ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cadarnhau'r ardaloedd hynny ar draws Cymru nad oes ganddynt seilwaith band eang NGA nac unrhyw gynlluniau i gael seilwaith o'r fath o fewn tair blynedd. Anogwyd y cyflenwyr i adolygu ardaloedd Gwyn posib y NGA a'r codau post Gwyn er mwyn sicrhau bod y rhestr hon mor gywir â phosibl a bod pob darpariaeth band eang gan gyflenwyr NGA wedi'u cynnwys yn y map NGA er mwyn hysbysu unrhyw gamau i gaffael NGA neu wasanaethau Gigabit yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn ogystal ag annog cyflenwyr i ymateb, roedd Llywodraeth Cymru'n awyddus hefyd i glywed gan Awdurdodau Lleol nid yn unig ar gywirdeb y data mapio NGA ond hefyd er mwyn casglu unrhyw safbwyntiau a/neu sylwadau ar sut y gallai Llywodraeth Cymru fanteisio orau wrth gaffael yn y dyfodol a thargedu'r adnoddau gorau a chyrraedd lleoliadau NGA Gwyn.

Anfonwyd negeseuon e-bost at 141 o ddarparwyr telathrebu, at bob un o'r 22 Awdurdod Lleol ac i 18 o sefydliadau diwydiant, yn eu hysbysu bod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cael ei gynnal rhwng 12/11/19 a 15/11/19. Cysylltwyd eto â nifer o gyflenwyr ac Awdurdodau Lleol yn ystod cyfnod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ei hun.

Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hefyd ar brif wefan Llywodraeth Cymru (<https://llyw.cymru/>) lansiwyd yr ymgynghoriad yn y Senedd gan y Dirprwy Weinidog yn ystod y cyfarfod llawn ar 12/11/19.

Yn ogystal, cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg yn rhanbarthol yr un diwrnod, a oedd yn targedu ardaloedd y gwyddom fod ganddynt ddarpariaeth band eang cyflym iawn is nac eraill, e.e. Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Fynwy.

Rhannwyd dolen gwefan yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hefyd ar sianelau Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol a rhannwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad hefyd gydag aelodau'r cyhoedd drwy sianelau ymholiadau band eang Llywodraeth Cymru a rhoddwyd gwybodaeth i gynghorwyr Cyflymu Cymru i Fusnesau i'w rhannu gyda busnesau lleol.

Daeth 36 o ymatebion i law Llywodraeth Cymru yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, ac roedd pump o'r rhain gan ddarparwyr telathrebu, pedwar Awdurdod Lleol, pedwar

sefydliad diwydiant a 22 o aelodau'r cyhoedd. Cafodd yr holl wybodaeth ei choladu a'i dadansoddi gan Lywodraeth Cymru.

Lleoliad y Wefan

<https://llyw.cymru/mynediad-i-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf>

Ymatebion - Trosolwg

Noder: mae'r holl ymatebion OMR a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i gymalau cyfrinachedd busnes ac ni fyddant felly'n cael eu cyhoeddi'n llawn. Pan fydd cyflwyniadau wedi'u derbyn i fireinio'r Ardal Ymyrryd, mae safleoedd / codau post wedi'u cyfateb â'r set ddata Cyfeiriad a'u dad-ddyblygu gyda chyflwyniadau eraill a oedd yn darparu'r un wybodaeth (h.y. pan fydd gwybodaeth wedi'i darparu gan awdurdod lleol am safleoedd sydd wedi'u cwmpasu gan ddarparwr telathrebu sydd hefyd wedi cyflwyno ar gyfer y safle hwn). Mae hyn yn helpu i ddarparu darlun cywir o'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru.

Ymatebion – Darparwyr telathrebu

Daeth deuddeg (12) ymateb Cais am Wybodaeth OMR a phump ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus OMR i law Llywodraeth Cymru gan ddarparwyr telathrebu, a werthuswyd fel rhan o'r broses OMR.

Amlinellir manylion ymatebion y cyflenwyr telathrebu hyn isod, a rhoddir darlun lefel uchel o sut mae eu data OMR wedi cael ei drin gan Lywodraeth Cymru. Pan dderbyniwyd ymatebion ar gyfer y Cais am Wybodaeth a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, mae'r rhain wedi'u crynhoi i gynnwys canlyniad cyffredinol y ddau ymateb a dderbyniwyd.

Sefydliad: Airband

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

30/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam cais am wybodaeth:

Anfonwyd cais e-bost at Airband ar 02/09/2019 yn gofyn am eglurhad pellach ynglŷn â darpariaeth ei rwydwaith gan nad oedd y safleoedd a gyflwynwyd yn ôl pob golwg yn cyfateb i'r datrysiad technolegol a gynigiwyd. Nid oes unrhyw wybodaeth bellach wedi dod i law oddi wrth Airband. O ganlyniad, cafodd data ei ddefnyddio o gytundeb grant blaenorol Llywodraeth Cymru gyda Airband i ddangos y codau post a wasanaethir ac i bennu'r Ardal Ymyrryd.

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:

12/12/19

Canlyniadau: Defnyddiwyd data Profi a Gwirio o gytundeb grant Airband a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau cwmpas darpariaeth Airband. Y drefn hon a ddefnyddiwyd yn flaenorol hefyd ar OMR 2017 a'r broses Ymgynghori â'r Cyhoedd.

Casgliad: Mae'r codau post o fewn darpariaeth rhwydwaith Airband a oedd wedi pasio proses Profi a Gwirio Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ac

wedi'u dosbarthu'n Llwyd/Du (fel rhwydwaith sydd wedi'i ariannu â Chymorth Gwladwriaethol yn flaenorol).

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Airband yn nodi ein casgliad ar 24/06/2020.

Sefydliad: Bogons Cyf

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

20/08/19

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus: Dim Gohebiaeth Bellach yn ystod yr Ymgynghoriad

Cyhoeddus: Anfonwyd ceisiadau e-bost at Bogons ar 27/08/19, 28/08/19 a 03/09/2019 yn gofyn am wybodaeth dechnegol ychwanegol am ei rwydwaith i ategu'r hyn yr oedd yn ei honni am ei ddarpariaeth. Gofynnwyd hefyd am fanylion ei ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, ni ddaeth unrhyw wybodaeth bellach o law oddi wrth Bogons.

Canlyniadau: Nid oedd digon o fanylion am hyd a lled rhwydwaith Bogons naill ai i brofi gallu'r ddarpariaeth bresennol nac i ddangos sut y gellid ymdopi â thwf yn y rhwydwaith wrth gynnal y lefelau gwasanaeth penodedig i bob defnyddiwr. Ni ddarparwyd unrhyw fanylion am yr union dechnoleg radio, dyluniad y rhwydwaith na'r dopoleg a ddefnyddiwyd yn y rhwydwaith mynediad diwifr sefydlog. Ni ddisgrifiwyd ychwaith sut yr oedd y rhwydweithiau craidd, mynediad ac ôl-drosglwyddo wedi cael eu dylunio i gyflenwi gwasanaethau band eang cyflym iawn i'r nifer o safleoedd a wasanaethir.

Casgliad: Cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru ac ni chafodd ei gynnwys yn y gwaith mapio terfynol.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Bogons yn nodi ein casgliad ar y 31/10/19 .

Sefydliad: Broadway Partners

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

20/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Anfonwyd cais e-bost at Broadway Partners ar 27/09/19 a 02/09/19 yn gofyn am eglurhad pellach ynglŷn â darpariaeth ei rwydwaith, gan nad oedd y safleoedd a gyflwynwyd yn ôl pob golwg yn cyfateb i'r datrysiad technolegol a gynigiwyd. Daeth gwybodaeth bellach i law oddi wrth Broadway Partners ar 06/09/2019.

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
12/12/19.

Canlyniadau: Darparodd Broadway Partners dystiolaeth fod ei brosiect i ehangu ei rwydwaith craidd Gigabit ar draws y sir

yn Sir Fynwy yn ddichonadwy yn dechnegol a masnachol, a bod ei gynllun yn cael ei asesu gan Gyngor Sir Fynwy ar y pryd. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth wedi'i darparu yn ategu'r honiad ynglŷn â'r ddarpariaeth yn Sir Fynwy, yn cynnwys darparu mynediad 30Mb yr eiliad i safleoedd a chadw at ganllawiau technoleg NGA BDUK, nid oedd y dogfennau ategol yn ddigonol i gefnogi honiad Broadway ynghylch eu darpariaeth ac nid oedd yn egluro sut y gellid ymdopi â'r lefel hon o dwf yn y rhwydwaith wrth gynnal cyflymderau NGA 30Mb yr eiliad i bob defnyddiwr. Fodd bynnag, roedd yr ail-gyflwyniad a ddarparwyd gan Broadway Partners yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn darparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiad am ddarpariaeth Sir Fynwy o'r safleoedd presennol a phosib i'w cwmpasu yn y tair blynedd nesaf gan ddefnyddio Rhwydwaith Ffibr EAD 10G yr eiliad.

Casgliad: Cafodd pob un o'r safleoedd sydd wedi'u cysylltu yn awr, a gyflwynwyd yn y cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, sy'n cynrychioli 15% o'r cyflwyniad, eu hymgorffori yn y map a'u tynnu o'r Ardal Ymyrryd. Mae'r safleoedd arfaethedig sy'n cynrychioli 85% o'r cyflwyniad wedi'u dynodi eu bod Dan Adolygiad, hyd nes y ceir canlyniad yr asesiad gan Gyngor Sir Fynwy.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Broadway Partners yn nodi ein casgliad ar y 24/06/2020

Sefydliad: CityFibre

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

14/08/19

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus: Dim
Gohebiaeth Bellach: Dim gohebiaeth bellach.

Canlyniadau: Cadarnhaodd CityFibre mai dim ond gwasanaethau cyfanwerthu gwibgyswllt i fusnesau/ailwerthwyr y mae ei rwydwaith yn eu darparu. Yn ei gyflwyniad OMR, cadarnhaodd nad yw'n darparu'u dechnoleg ffibr yn uniongyrchol i ddefnyddwyr yng Nghymru ar hyn o bryd. Nodwyd bod CityFibre yn darparu cynhyrchion Ffibr i'r Cartref (FTTH) ledled y DU drwy ei bartner ISP (Darparwr Gwasanaethau Rhyngwladol), Vodafone. Fodd bynnag, dywedodd CityFibre nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i fuddsoddi yng Nghymru ar hyn o bryd.

Casgliad: Cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru ac ni chafodd ei gynnwys yn y gwaith mapio terfynol.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at CityFibre yn nodi ein casgliad ar 31/10/19.

Sefydliad: ComWales

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

20/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Anfonwyd cais e-bost at ComWales ar 20/08/19 a 27/08/19, yn gofyn am wybodaeth ychwanegol nad oedd wedi'i chynnwys yn ei gyflwyniad OMR ac yn ceisio eglurhad o ran y safleoedd a oedd yn cael eu hawlio gan ei ddatrysiad technoleg. Cafodd yr wybodaeth hon ei chyflenwi gan ComWales ar 20/08/19 a 27/08/19.

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus: Dim.

Canlyniadau: Manwerthwr sy'n ailwerthu gwasanaethau band eang yn unig yw ComWales ar hyn o bryd. Mae'r safleoedd yr honnir yn ei gyflwyniad OMR fod ganddynt fand eang NGA yn cael darpariaeth drwy rwydwaith (a chynhyrchion) Openreach ar hyn o bryd. Felly, mae'r rhain wedi cael eu hawlio'n barod o dan ymateb OMR Openreach ei hun.

Casgliad: Cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru ac ni chafodd ei gynnwys yn yr ymgynghoriad.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at ComWales yn nodi ein casgliad ar 31/10/19.

Sefydliad: Fibrespeed

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

12/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Dim gohebiaeth bellach.

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus: Dim

Canlyniadau: Dim ond manylion ei leoliadau Pwynt Presenoldeb (PoP) ar draws Gogledd Cymru a ddarparwyd gan FibreSpeed, yn hytrach nag unrhyw fanylion am nifer y safleoedd sy'n cael eu cwmpasu gan ei dechnoleg. Er iddo gadarnhau ei fod yn darparu gwasanaethau cyfanwerthu gwibgyswllt i fusnesau/ailwerthwyr, ni wnaeth nodi pa ddarparwyr telathrebu yng Ngogledd Cymru sy'n defnyddio'r rwydwaith i gyflenwi gwasanaethau NGA i ddefnyddwyr. Cafodd ardal darpariaeth rhwydwaith FibreSpeed ei chynnwys felly yn yr Ardal Ymyrryd bosib.

Casgliad: Cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru ac ni chafodd ei gynnwys yn y gwaith mapio terfynol.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at FibreSpeed yn nodi ein casgliad ar 31/10/19.

Sefydliad: Gigaclear

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

20/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Dim gohebiaeth bellach.

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus: Dim

Canlyniadau: Er bod rhwydwaith Gigaclear yn defnyddio technoleg sy'n cydymffurfio â'r gofynion NGA i nifer o safleoedd yng Nghymru y mae'n darparu gwasanaethau NGA. Nid oedd gan Gigaclear ychwaith unrhyw gynlluniau i ehangu'r rhwydwaith hwn ar draws Cymru.

Casgliad: Darparodd Gigaclear dystiolaeth ddigonol ei fod yn darparu gwasanaethau band eang NGA i'r safleoedd a nodwyd o fewn ei ddarpariaeth ac roedd ei rwydwaith yn unol â'r canllawiau technoleg NGA. Felly, mae'r UPRN cyfatebol wedi cael eu hymgorffori yn y mapio ac wedi'u dosbarthu'n Llwyd neu Ddu.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Gigaclear yn nodi ein casgliad ar 31/10/19.

Sefydliad: ITS Technology

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

14/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Anfonwyd e-bost at ITS Technology ar 15/08/19 yn gofyn am wybodaeth ychwanegol nad oedd wedi'i chynnwys yn ei gyflwyniad OMR. Cafodd yr wybodaeth hon ei chyflenwi gan ITS Technology ar 16/08/19 a 03/09/19.

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus: Dim

Canlyniadau: Darparodd ITS Technology dystiolaeth ddigonol yn ei gyflwyniad OMR fod gan seilwaith ei rwydwaith y capasiti i gyflenwi cyflymderau band eang o >30Mb yr eiliad a chadw at ganllawiau technoleg NGA BDUK.

Casgliad: Mae cyflwyniad cyfan ITS wedi cael eu dosbarthu'n rhai Llwyd neu Ddu a'u tynnu o'r Ardal Ymyrryd.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at ITS Technology yn nodi ein casgliad ar 31/10/19.

Sefydliad: Michaelston y Fedw

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

14/11/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Anfonwyd e-bost at Michaelston y Fedw ar 27/11/19 a

09/12/19 yn gofyn am wybodaeth ychwanegol nad oedd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Darparwyd yr wybodaeth hon gan Michaelston y Fedw ar 28/11/19 a 10/12/19.

Canlyniadau: Darparodd Michaelston y Fedw dystiolaeth ddigonol yn ei gyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus fod gan seilwaith ei rwydwaith y capasiti i gyflenwi gwasanaethau gigabit i bob safle sydd wedi'u cysylltu, gyda safleoedd ychwanegol ar y gweill o fewn y 3 blynedd nesaf.

Casgliad: Mae 91% o UPRN cyfatebol wedi'u dosbarthu Llwyd neu'n Ddu a'u tynnu o'r Ardal Ymyrryd. Mae'r safle arfaethedig ychwanegol sy'n cynrychioli 9% o'r cyflwyniad wedi'u cynnwys fel rhai o Dan Adolygiad.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Michaelston y Fedw yn nodi ein casgliad ar 24/06/2020.

Sefydliad: Openreach

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

20/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Anfonwyd e-bost at Openreach ar 28/08/19 yn gofyn am wybodaeth bellach ynglŷn â'i wasanaethau sy'n gallu darparu Gigabit. Derbyniwyd gwybodaeth ddiwygiedig gan Openreach ar 06/09/19, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd modd felly i Lywodraeth Cymru adnabod y safle dan sylw fel rhai sydd o Dan Adolygiad.

Derbyniwyd cyflwyniad i Ymgynghoriad Cyhoeddus

OMR: 12/12/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod cam yr Ymgynghoriad

Cyhoeddus: Derbyniwyd fersiynau diwedddaredig o'u set ddata ar 16/12/19 a 21/02/20 yn dilyn nifer o ymholiadau a oedd yn gysylltiedig â'u gwybodaeth yn ystod dadansoddiad Llywodraeth Cymru.

Canlyniadau: Er nad oedd y cyflwyniad yn cynnwys yr holl dystiolaeth ategol y gofynnwyd amdani, caiff Openreach ei ystyried yn ddarparwr telathrebu cydnabyddedig yn sgil OMR blaenorol, a gwyddom fod gan ei seilwaith ffibr i'r cabinet (FTTC) 10 a ffibr i'r safle (FTTP) y gallu i gyflenwi gwasanaethau a chynhyrchion NGA yn genedlaethol.

Casgliad: Cafodd yr UPRN cyfatebol, lle'r oedd gwasanaethau NGA ar gael, eu hymgorffori yn y gwaith mapio a'u tynnu o'r Ardal Ymyrryd, sy'n gyfwerth â 95.3% o'r cyflwyniad. Mae'r safleoedd hynny a nodwyd gan Openreach fel rhai sy'n rhan o'i rwydwaith arferol wedi cael eu nodi fel rhai sydd o Dan Adolygiad. Mae'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr estyniad posib o gynllun Band Eang NGA sy'n cael ei

ariannu gan Lywodraeth Cymru Hefyd wedi'u hamlygu fel safle Dan Adolygiad. Mae'r safle hefyd wedi'u cynnwys fel rhai Dan Adolygiad pan fydd angen eglurhad o statws cwrmpas y safle. Roedd y rhain yn cynrychioli cyfanswm o 4.7% o'r cyflwyniad.

Mae'r safleoedd hyn Dan Adolygiad wedi'u heithrio o'r Ardal Ymyrryd NGA. Fodd bynnag, byddant yn parhau i gael eu monitro a'u gwirio a byddir yn sicrhau eu hansawdd fel rhan o oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gynllun adeiladu Openreach. Os bydd darpariaeth y rhwydwaith yn newid yn sylweddol, gallai'r safleoedd hyn gael eu mapio fel NGA Gwyn a dod yn rhan o Ardal Ymyrryd bosib a chynllun caffael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Pan fydd cynlluniau eisoes wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd safle Dan Adolygiad wedi'u dosbarthu fel safle Llwyd neu Ddu.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Openreach yn nodi ein casgliad ar 24/06/2020.

Sefydliad: Rural Technologies

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

23/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Anfonwyd cais e-bost at Rural Technologies ar 27/08/19, 29/08/19 a 02/09/2019 yn gofyn am wybodaeth dechnegol ychwanegol i ategu'i honiadau o ran ei ddarpariaeth, ac yn gofyn am wybodaeth nad oedd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad OMR .

Canlyniadau: Darparodd Rural Technologies rywfaint o wybodaeth i ategu'i gyflwyniad OMR yn cynnwys gwybodaeth am ei rwydwaith a manylion safonau technoleg a dyluniad rhwydwaith ei NGA.

Casgliad: Cafodd y cyflwyniad ei ddiystyru ac ni chafodd ei gynnwys yn y gwaith mapio terfynol.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Rural Technologies yn nodi ein casgliad ar 31/10/19.

Sefydliad: Secure Web Services (SWS)

Derbyniwyd ymateb i'r Cais am Wybodaeth OMR:

30/08/19

Gohebiaeth Bellach yn ystod y cam Cais am Wybodaeth:

Dim gohebiaeth bellach

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:

18/11/19

Gohebiaeth bellach yn ystod y cam Ymgynghoriad

Cyhoeddus: Anfonwyd cais e-bost at SWS ar 11/12/19 a

12/12/19 yn gofyn am wybodaeth a oedd ar goll yn y cyflwyniad OMR.

Canlyniadau: Gwybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd gan Secure Web Services yn ei gyflwyniad Cais am Wybodaeth OMR, gan gynnwys manylion ei safonau technoleg NGA a dyluniad a dimensiwn y rhwydwaith cyfan. Fodd bynnag, darparwyd gwybodaeth berthnasol ddigonol yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Casgliad: O ganlyniad i'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, mae'r UPRN a nodwyd wedi'u tynnu o'r Ardal Ymyrryd ac wedi'u dosbarthu'n Llwyd neu Ddu.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Secure Web Services yn nodi ein casgliad ar y 24/06/2020.

Sefydliad: Virgin Media

Derbyniwyd: 20/08/19

Gohebiaeth bellach yn ystod y cam Ymgynghoriad

Cyhoeddus: Dim gohebiaeth bellach

Derbyniwyd ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus OMR:
Dim

Canlyniadau: Mae Virgin Media wedi darparu tystiolaeth ddigonol ei fod yn darparu gwasanaethau NGA ar draws Cymru a chaiff ei ystyried yn ddarparwr telathrebu cydnabyddedig yn sgil OMR blaenorol.

Casgliad: Cafodd y rhestr o godau post lle mae gwasanaethau NGA ar gael ei chynnwys yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a chawsant eu tynnu o'r Ardal Ymyrryd. Mae'r safleoedd hynny a nodwyd gan Virgin Media fel rhai sy'n rhan o'i gynllun adeiladu 2019 wedi cael eu nodi fel rhai sydd o 'Dan Adolygiad'. Roedd hyn yn cynrychioli 3% o'r cyflwyniad. Mae'r safleoedd hyn sydd o 'Dan Adolygiad' wedi cael eu gadael allan o'r Ardal Ymyrryd. Fodd bynnag, byddant yn parhau i gael eu monitro a'u gwirio a byddir yn sicrhau eu hansawdd fel rhan o oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gynllun adeiladu Virgin Media. Os bydd darpariaeth y cynllun adeiladu yn newid yn sylweddol, gallai'r safleoedd hyn gael eu mapio fel NGA Gwyn a dod yn rhan o Ardal Ymyrryd bosib a chynllun caffael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Anfonwyd hysbysiad drwy e-bost at Virgin Media yn nodi ein casgliad ar y 31/10/19.

Ymatebion – Awdurdodau Lleol

Ymgynghorwyd â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus OMR a derbyniwyd ymatebion gan yr Awdurdodau canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Gogledd Cymru (sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam);
- Cyngor Sir Gaerfyrddin;
- Cyngor Sir Fynwy;
- Cyngor Sir Benfro.

Ni dderbyniwyd gohebiaeth gan y deg awdurdod lleol arall yng Nghymru.

Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful a Chyngor Sir Powys, ond dywedodd y ddau nad ydynt yn rhan o unrhyw fuddsoddiad presennol/arfaethedig mewn NGA neu fand eang Gigabit yn y tair blynedd nesaf neu nid oeddent yn ymwybodol ohono.

Ymatebodd Cyngor Sir Ceredigion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar 05/12/19 bod ganddynt nifer o uchelgeisiau i wella'r seilwaith digidol ar draws y sir ond na allant ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ar yr adeg hon.

Mae manylion yr ymatebion gan yr Awdurdodau Lleol eraill wedi'u hamlinellu isod, ynghyd â darlun lefel uchel o sut y cafodd eu data OMR ei drin gan Lywodraeth Cymru.

Awdurdod Lleol: Gogledd Cymru (gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Derbyniwyd cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
12/12/19

Canlyniadau: Roedd cyflwyniad Gogledd Cymru yn darparu gwybodaeth am y safleoedd sydd wedi'u cwmpasu gan Rwydwaith Ffibr Llawn Lleol Gogledd Cymru, a fydd yn cael ei wasanaethu gan Openreach Cyf. Ymhellach at y rhain, darparwyd pedwar cod post ychwanegol, sy'n cael eu gwasanaethu gan PSBA WAN.

Casgliad: Mae'r holl safleoedd presennol a'r safleoedd posib sy'n cael eu gwasanaethu gan LFFN fel rhan o brosiect LFFN Gogledd Cymru wedi'u dosbarthu'n safleoedd Llwyd neu Ddu.

Cafodd y codau post sy'n cael eu gwasanaethu gan PSBA ar hyn o bryd hefyd eu dosbarthu fel safleoedd Llwyd neu Ddu.

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Caerfyrddin

Derbyniwyd cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
11/12/19

Canlyniadau: Mae nifer o gynlluniau'n cael eu datblygu yn y sir i wella cysylltedd digidol, fodd bynnag, nid ydynt ar gam i gadarnhau ymyrraeth lefel cod post neu safleoedd ar hyn o bryd.

Casgliad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Fynwy

Derbyniwyd cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
11/12/19

Canlyniadau: Mae gan Sir Fynwy ddau gynllun ar waith yn awr a dyfarnwyd Broadway Partners Cyf i'w cynnal. Mae'r rhain wedi'u hariannu'n llawn fel rhan o'r gronfa datblygu Cymunedau Gwledig a bwriedir eu cwblhau erbyn Mawrth 2020.

Casgliad: Mae pob safle wedi'u dosbarthu'n safle Llwyd neu Ddu.

Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Benfro

Derbyniwyd cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
12/12/19

Canlyniadau: Mae gan Sir Benfro gynllun ar waith i ddarparu LFFN i safleoedd yn y sir, i'w cyflenwi gan Openreach. Mae Sir Benfro hefyd wedi creu tîm ymgysylltu band eang i helpu busnesau a phreswylwyr i wella eu cysylltedd band eang. Mae nifer o brosiectau ar waith hefyd i helpu i ddatblygu'r cysylltedd yn Sir Benfro.

Casgliad: Mae pob safle wedi'u dosbarthu'n Llwyd neu Ddu.

**Ymatebion –
Sefydliadau
Diwydiant**

Sefydliad Diwydiant: Menter Môn

Derbyniwyd cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
28/11/19

Canlyniad: Darparodd Mentor Môn wybodaeth am y datblygiadau prosiect presennol yng Ngwynedd a Môn, fodd bynnag oherwydd camau presennol y prosiect, ni ddarparwyd safleoedd na chodau post.

Casgliad: Nid oedd yn bosibl defnyddio unrhyw wybodaeth i freinio'r Ardal Ymyrryd ac felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad Diwydiant: Think Broadband

Derbyniwyd cyflwyniad i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus:
27/11/19

Canlyniadau: Dywedodd Think Broadband nad oedd ganddynt yr adnoddau ar hyn o bryd i ddilysu'r Ardal Ymyrryd.

Casgliad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

**Ymatebion –
Cyrff
Llywodraethu**

Sefydliad: BDUK

Derbyniwyd cyflwyniad OMR: 17/02/20

Canlyniadau: Safleoedd wedi'u darparu gan ddefnyddio cyfeiriadau sydd wedi'u cysylltu i rwydwaith ffibr gan ddefnyddio cyllid a oedd ar gael gan BDUK.

Casgliad: Cafodd 75% o'r UPRN cyfatebol eu dosbarthu fel safleoedd Llwyd neu Ddu a chafodd 25% eu dosbarthu fel rhai Dan Adolygiad.

Sefydliad: Llywodraeth Cymru

Derbyniwyd cyflwyniad OMR: Ddim yn berthnasol

Canlyniadau: Nodwyd safle sydd â'r potensial i gael eu cynnwys yn y cynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Casgliad: Pob safle wedi'u dosbarthu fel rhai Dan Adolygiad.

Ymatebion – Preswylwyr a busnesau

Ymatebodd 22 o breswylwyr a busnesau yng Nghymru i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion e-bost a'r rhai a ymatebodd gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg ar-lein.

Roedd saith o'r ymatebion hyn yn negeseuon e-bost a oedd yn nodi safleoedd nad oeddent wedi'u mapio a/neu oedd wedi'u mapio'n anghywir fel safle Llwyd neu Ddu. Cwblhawyd yr 16 ymateb arall gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg ar-lein.

Dadansoddwyd yr ymatebion hyn gan Lywodraeth Cymru a chawsant eu datrys gan ddefnyddio un neu fwy o'r canlyniadau canlynol:

- Lle nad oedd safle wedi'u hamlygu ar y map neu os nad oedd ganddynt UPRN, cafodd y rhain eu nodi gyda set data sylfaen cyfeiriadau newydd (epoch 73). Cafodd materion storio ar y system fapio ar-lein (Lle) eu datrys hefyd a chyflwynwyd categori wedi'i hidlo i adlewyrchu safleoedd nad ydynt yn debygol o gynrychioli pwynt terfynol cymwys ar gyfer band eang NGA. Cafodd materion eraill eu cyfeirio at yr Arolwg Ordians, pan oedd hynny'n briodol;
- Pan ystyriwyd bod statws cwrpas NGA yn anghywir, cafodd y rhain eu dadansoddi gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan ddarparwyr telathrebu o fewn yr OMR hwn a'i gywiro pe byddai angen.

O'r ymatebion cyhoeddus, mae 344 wedi'u dosbarthu fel rhai Dan Adolygiad yn awr, 30 wedi'u dosbarthu'n Wyn a 3 safle wedi'u dosbarthu'n Llwyd.

Ymatebion Ychwanegol

Derbyniodd yr OMR yr ohebiaeth ychwanegol ganlynol gyda'r rhanddeiliaid canlynol:

Sefydliad: 1a Aerials

Derbyniwyd: 04/08/19

Gohebiaeth: E-bost yn egluro nad yw'n gyflenwr uniongyrchol o wasanaethau band eang ar draws Cymru.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: Aspects Business Communications

Derbyniwyd: 15/08/19

Gohebiaeth: Cadarnhawyd ei fod yn ail-werthwr band eang ar gyfer Internet Service Providers (ISPs) yn unig.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: Astrix Integrated Systems

Derbyniwyd: 14/08/19

Gohebiaeth: Cadarnhawyd nad yw bellach yn cyflenwi gwasanaethau band eang.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: Bentley Walker

Derbyniwyd: 23/08/19

Gohebiaeth: E-bost yn egluro eu bod ond yn darparu gwasanaethau band eang lloeren ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni all hyn gyflawni meini prawf technegol yr NGA o 30Mb yr eiliad neu fwy.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: Cerberus Networks Cyf

Derbyniwyd: 23/08/19

Gohebiaeth: Cadarnhawyd eu bod yn ail-werthwr band eang ar gyfer ISP yn unig yn cyflenwi cynnyrch FTTPoD /FoD drwy rwydwaith Openreach.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: Line Broker

Derbyniwyd: 15/08/19

Gohebiaeth: Cadarnhawyd nad oedd yr OMR yn rhywbeth y byddai Line Broker yn ymateb iddo.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: SEACOM

Derbyniwyd: 15/08/19

Gohebiaeth: Cadarnhawyd nad oes ganddynt unrhyw gysylltedd yng Nghymru

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Sefydliad: Sky UK Cyf

Derbyniwyd: 14/08/19

Gohebiaeth: Cadarnhaodd bod Sky yn darparu ei wasanaethau band eang ar draws Cymru drwy Openreach yn unig

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Casgliad

Drwy ddefnyddio Sylfaen Cyfeiriadau Premiwm yr Arolwg Ordnans (epoch 73) i Gymru fel set ddata sylfaen, defnyddiwyd y data OMR a gyflwynwyd gan y cyflenwyr telathrebu, awdurdodau lleol, sefydliadau diwydiant ac aelodau'r cyhoedd i gynhyrchu'r rhestr a'r map o safleoedd NGA Gwyn, meini prawf NGA Gwyn, Llwyd, Du a Dan Adolygiad. Cafodd safleoedd wedi'u hidlo eu cynnwys hefyd yn y gwaith mapio er mwyn nodi'r safleoedd sy'n annhebygol o gynrychioli pwyntiau terfynol sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth Mynediad y Genhedlaeth Nesaf.

Yn y dadansoddiad a'r gwaith mapio OMR cafodd y data lefel safleoedd a/neu god post eu tynnu o'r Ardal Ymyrryd (ardaloedd NGA Gwyn) oherwydd roedd yr ardaloedd hyn

eisoes yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau NGA (neu roedd bwriad iddynt gael eu gwasanaethau yn y tair blynedd nesaf).

Arweiniodd hyn at Ardal Ymyrryd sy'n cynnwys 15,256 o godau post Gwyn, sy'n gyfystyr â 79,023 o safle Gwyn. Felly, mae'r rhestr hon yn cael ei diffinio fel yr 'Ardal Ymyrryd Wen OMR 19'.

Statws yr Ymgynghoriad	Y cyfrif safleoedd yn dilyn yr OMR		Cyfanswm
		Is-gyfanswm	
Cod post Du	372,257	372,475	1,651,236
Safleoedd Du	218		
Cod post Llwyd	25,026	1,110,331	
Safleoedd Llwyd	1,085,305		
Safleoedd Gwyn	79,023	79,023	
Cod post Dan Adolygiad	69	76,674	
Safleoedd Dan Adolygiad	76,605		
Safleoedd wedi'u hidlo	12,733	12,733	

Mae'r Ardal Ymyrryd sydd wedi'i mapio yn yr OMR hwn yn weladwy gan ddefnyddio, porth ar-lein Llywodraeth Cymru (*Bydd dolen yn cael ei darparu mewn fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r ddogfen hon maes o law*).

Cyhoeddwyd data lefel cod post ac Awdurdod Lleol ar [wefan ymgynghoriad Llywodraeth Cymru](#) gyda'r adroddiad hwn o'r canfyddiadau.

Yn ogystal â hyn, mae data lefel safle wedi'i lwytho i lwyfan a rennir Llywodraeth Cymru er mwyn i Awdurdodau Lleol, darparwyr telathrebu a sefydliadau eraill sydd â diddordeb ddadansoddi, mapio a defnyddio'r wybodaeth yn annibynnol i hysbysu eu gweithgareddau yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd gan aelodau Cytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus (PSMA) fynediad hefyd at y data lledred a hydred cysylltiedig er mwyn plotio'r data hwn ar fap.